

Dyddiad: 17 Gorffennaf 2002
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3
Teitl: Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal

Diben

1. Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar sut y defnyddiodd awdurdodau lleol grant penodol o £5 miliwn a ddarparwyd iddynt yn 2001/2002 i helpu i leihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal a chynorthwyo'r sector annibynnol, a rhoi gwybodaeth fwy cyffredinol iddo ar fonitro a lleihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal.

Cefndir

2. Cyflwynwyd papur i'w nodi ger bron y Pwyllgor ym mis Ebrill. Roedd hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad i fesur nifer yr achosion a fu o oedi wrth drosglwyddo gofal ac i nodi'r achosion sy'n sail iddynt, gan ddefnyddio diffiniad safonol a set gyffredin o resymau i bennu eu nifer a'u cymharu ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, cafodd y diffiniad ei ehangu i gwmpasu nid yn unig y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbytai ond hefyd y rhai sy'n cael eu trosglwyddo o fewn y GIG, er enghraifft o ofal aciwt i ysbytai cymunedol.

3. Roedd y papur hefyd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed a'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i helpu partneriaid lleol i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn ystod y llynedd, gwnaed llawer o waith i ddatblygu'r system beilot a sefydlwyd ym mis Ionawr 2001 i gasglu data gan ddefnyddio'r diffiniad a'r meini prawf mesur i greu system fonitro Gymru-gyfan ddibynadwy. Er mai data dros dro a gynhyrchwyd wrth ddatblygu'r system casglu data, mae wedi caniatáu i ni ddadansoddi'r rhesymau dros yr oedi a gwneud cymariaethau ar draws Cymru. Mae'r wybodaeth hon, er bod rhesymau gwahanol dros yr oedi ym mhob rhan o Gymru, yn dangos bod themâu cyffredin i'r achosion hyn, sy'n gymhleth ac yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd. Dyma'r prif themâu ledled Cymru o hyd:

- Arian ar gyfer lleoliadau yn y sector cartrefi gofal;
- Lle o fewn y sector cartrefi gofal. Mae'r oedi yn aml yn digwydd am fod cleifion yn cael dewis y lleoliad gofalu y cânt eu trosglwyddo iddo;
- Trosglwyddo rhwng gwahanol rannau o'r GIG;
- Problemau sy'n codi yn y ystod y prosesau trosglwyddo gofal. Gall yr achosion hyn o oedi ddigwydd, er enghraifft, o ganlyniad i'r prosesau asesu.

4. Cyfrifoldeb y partneriaid lleol yw gostwng nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a'u

cynnal, ac mae'n gofyn am ymrwymiad ac atebion hir dymor sy'n mynd i'r afael â materion gofal iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd.

Cofnodi Data Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

5. Mae'r system monitro achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gyda chymorth ychwanegol y gronfa ddata a sefydlwyd ym mis Ebrill, yn gallu darparu gwybodaeth fanwl iawn, gan gasglu nifer yr achosion o oedi sy'n digwydd ar wahanol gamau 'taith' claf trwy'r system ofalu. Felly, mae cyfanswm nifer yr achosion o oedi a gofnodir gan y system yn cynnwys nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion o fewn y GIG ac o ysbytai cymunedol yn ogystal ag i ysbytai aciwt.

6. Mae systemau gwahanol ar waith mewn rhannau eraill o'r DU i fesur a monitro'r oedi. Er gwybodaeth, dyma sut y mae'r systemau sydd ar waith yn Lloegr a'r Alban yn gweithio:

Lloegr

7. Mae'r Adran Iechyd yn defnyddio ffurflenni'r Awdurdodau Iechyd i gasglu data ar achosion o oedi. Mae'r llinyn mesur yn canolbwyntio ar yr oedi wrth drosglwyddo cleifion rhwng y sector iechyd gofal aciwt a mathau eraill o ofal y tu allan i'r sector aciwt, ond nid ar yr oedi rhwng lleoliadau gofal yn y GIG, e.e. trosglwyddo cleifion o ysbytai aciwt i ysbytai cymunedol ac o ysbytai cymunedol i ofal yn y gymuned. Maent yn cydnabod mai dim ond rhan o'r system gyfan yw hyn. Bwriedir ehangu'r gwaith i gwmpasu rhannau eraill o'r system maes o law.

Yr Alban

8. Mae Gweithrediaeth yr Alban wedi rhoi system ar waith sy'n cyfrif yr achosion o oedi yn ôl diffiniadau'r safonau cenedlaethol a'r meini prawf cofnodi data. Cyhoeddir y data'n chwarterol, a phwyleisir y dylid ei ystyried yng nghyd-destun nifer ac amrywiaeth y trefniadau cynllunio y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai, ynghyd â'r amgylchiadau lleol gwahanol sy'n bodoli yn yr Alban. Mae'r system yn caniatáu cyfnod o 6 wythnos i gwblhau cynllunio'r broses o ryddhau cleifion cyn cyfrif claf a drosglwyddir.

9. Yng Nghymru, rydym yn fwriadol yn casglu llawer mwy o wybodaeth fel erfyn rheoli gwybodaeth i'w ddefnyddio yn y GIG a rhwng y GIG a lleoliadau gofal eraill. Mae'n bwysig deall hyn, oherwydd fel arall gallai'r data o Gymru ymddangos yn anghymesur.

Cynllun Grant £5 miliwn 2001-2

10. O dan Gynllun Grant 2001-2, dosbarthwyd arian i lywodraeth leol, gan ganiatáu i awdurdodau lleol ddelio'n uniongyrchol ag achosion lleol o oedi wrth drosglwyddo gofal, mewn cydweithrediad â'u partneriaid yn y GIG a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol. Roedd Canllaw y Cynllun Grant yn cynnwys nodau ac amcanion penodol a chanllawiau ar gyfer defnyddio'r arian. Un o'r amcanion oedd helpu i

sefydlogi'r sector annibynnol. Roedd amcanion eraill yn canolbwyntio ar yr angen am wella gwasanaethau cymunedol er mwyn i bobl allu dewis eu gofal, gan helpu i osgoi eu derbyn i'r ysbyty yn ddi-angen ac oedi wrth drosglwyddo gofal.

11. Un o'r amodau wrth ddyrannu arian y grant oedd bod pob Awdurdod Lleol yn paratoi Adroddiad Grant gyda'u partneriaid yn y GIG erbyn 31 Mai 2002.

12. Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor ym mis Ebrill, mae'r arian hwn wedi'i ddefnyddio i ymdrin â materion a phroblemau lleol. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae hyn wedi golygu cynyddu ffioedd cartrefi yn y sector annibynnol i ddiogelu capasiti. Yn Atodiad A, ceir dadansoddiad Cymru-gyfan o'r gwariant gwirioneddol fesul awdurdod lleol ac yn ôl categori.

13. O ddadansoddi'r data, ym Mawrth 2001, dangoswyd bod:

- 8 awdurdod lleol wedi sicrhau gostyngiad o 10% yn niferoedd yr achosion o oedi a gofnodwyd oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol o'u cymharu â mis Hydref 2001.
- 6 awdurdod lleol wedi sicrhau gostyngiad o 15% yn nifer yr achosion o oedi oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol o'u cymharu â mis Hydref 2001.

Camau Gweithredu a'r Camau Nesaf

11. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i helpu ac i gefnogi partneriaid lleol yn eu hymdrechion i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Fel y nodwyd yn adroddiad interim mis Ebrill, yn ogystal â dyrannu £12 miliwn i lywodraeth leol ar gyfer 2002-3, bydd cymorth pellach i bartneriaid lleol, sef:

Monitro a Dadansoddi

1. Bellach, mae Ymddirioledaethau'n gweithredu system "amser real", sy'n caniatáu iddynt ddadansoddi'r rhesymau dros oedi'n fanylach a darparu erfyn gwybodaeth rheoli pwerus i'w partneriaid lleol fel sail i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal.
2. Bydd dadansoddi data a Chynlluniau Gweithredu ar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal i sicrhau y gellir ymdrin yn effeithiol ar lefel leol ag oedi a nodi arfer gorau yn parhau.

Lledaenu Arfer Gorau a Gwella Prosesau.

- Cyhoeddir cyfeiriadur arfer da i helpu i ledaenu syniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn ddiweddarach eleni ac mae rhaglen o waith "cyfryngau newid" yn yr arfaeth, i ddechrau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. O dan y rhaglen, bydd pobl broffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ymweld â phartneriaid lleol.
- Mae arweiniad i brosesau effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion wrthi'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys canllawiau ar ddewis a graddfeydd amser ar gyfer ymatebion, i'w defnyddio gan ymarferwyr rhyddhau cleifion.

Cydymffurfio

12. Dosbarthwyd arian y Cynllun Grant o dan Adran 28B o Ddeddf y GIG 1977. Nid oes unrhyw faterion o ran rheoleidd-dra ac uniondeb.

Goblygiadau Ariannol

13. Daw £5 miliwn y grant o ffynonellau MEG Iechyd a Gwanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill SEG a Gofal yr Henoed a Thymor Hir BEL

Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

Pwynt Cyswllt

15. Claire Rowlands, Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, Cangen 1. Estyniad 6742.

JANE HUTT

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol